Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad ar ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc

**yng**

**Nghyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent**
**Swyddfeydd Bwrdeistrefol**
**Canolfan Dinesig**
**Glyn Ebwy**
**NP23 6XB**

**Ionawr 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i allu i wella.

Yn yr arfarniadau hyn, rydym yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

**Rhagorol**
**Da**
**Digonol**
**Anfoddhaol**

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 16/05/2013**

## Cyd-destun

Mae Blaenau Gwent wedi'i leoli yn ne-ddwyrain Cymru. Cyfanswm y boblogaeth yw 69,812. Ym Mlaenau Gwent, dywed 16.9% o bobl dros dair oed eu bod yn gallu siarad Cymraeg, o gymharu â chyfartaledd Cymru sef 19.0%.

O'r boblogaeth weithio ym Mlaenau Gwent, nid oes cymwysterau gan 14.3% ohonynt, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 11%. Mae 29.1% o ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol yn gymwys i gael prydau ysgol, sy'n uwch na 19.3% yn genedlaethol. Dyma'r lefel uchaf sy'n gymwys yng Nghymru. Dau ddeg tri % o'r 47 ardal ym Mlaenau Gwent sydd bellach yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Ar 31 Mawrth 2012, roedd 135 o blant ym Mlaenau Gwent yn cael gofal gan yr awdurdod. Roedd 70 o blant ar y gofrestr Amddiffyn Plant.

Mae pobl o leiafrifoedd ethnig yn cyfrif am 1% o'r boblogaeth, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 4.2%.

### Cyd-destun ariannol

Asesiad Gwariant Safonol (AGS) Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ar gyfer 2012-2013 yw £1,823 fesul pen y boblogaeth. Dyma'r lefel AGS ail uchaf fesul pen y boblogaeth yng Nghymru. Mae'r awdurdod yn pennu ei gyllideb refeniw cyfan ar 104.1% o AGS ac, o ganlyniad, mae lefelau uchel o'r Dreth Gyngor yn parhau.

Yn 2012-2013, roedd yr awdurdod wedi pennu ei gyllideb addysg uwchlaw lefel y gydran addysg dybiannol yn yr AGS. Creodd hyn gyllideb addysg o £5,489 y disgybl heb gynnwys grantiau, sydd ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru sef £4,813 y disgybl, a dyma'r uchaf o blith holl awdurdodau Cymru.

Mae ffigurau Llywodraeth Cymru yn dangos bod yr awdurdod yn dirprwyo 80.9% o'r gyllideb addysg sydd ar gael i ysgolion, ychydig islaw cyfartaledd Cymru, sef 81%.

Mae hyn yn cynhyrchu cyllidebau dirprwyedig cyfartalog o £4,777 y disgybl mewn ysgolion cynradd a £4,319 y disgybl mewn ysgolion uwchradd, gan gynnwys grantiau. Mae'r cyllidebau dirprwyedig ar gyfer ysgolion cynradd ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef £4,114 y disgybl. Mae cyllidebau'r ysgolion uwchradd islaw cyfartaledd Cymru, sef £4,589 y disgybl. Y rheswm am hyn yw'r newid lleol diweddar o ran cyllido darpariaeth chweched dosbarth.

Cyfanswm cost addysg ysgol gynradd ym Mlaenau Gwent, gan gynnwys cyllid i wasanaethau a reolir yn ganolog, yw £5,002 y disgybl ysgol gynradd, o gymharu â chyfartaledd ar draws Cymru, sef £4,536. Cost addysg ysgol uwchradd yw £4,749 y disgybl, sydd islaw cyfartaledd Cymru, sef £4,949.

### Arweinyddiaeth gorfforaethol

Ym Mai 2011, canfu Estyn fod perfformiad gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol yn anfoddhaol. Yn ogystal, canfu Estyn fod rhagolygon gwella'r awdurdod yn

anfoddhaol. O ystyried y diffygion hyn, rhoddodd Estyn yr awdurdod yn y categori mesurau arbennig.

Ym Medi 2011, penododd y Gweinidog Addysg a Sgiliau bedwar comisiynydd, dau i arfer swyddogaeth gweithrediaeth yr awdurdod a dau gomisiynydd cynghorol i gefnogi a herio'r comisiynwyr addysg. Adeg yr arolygiad, roedd y Gweinidog wedi gostwng nifer y comisiynwyr i un.

## Crynodeb

**Barn gyffredinol: Anfoddhaol**

Mae gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol ar gyfer plant a phobl ifanc yn anfoddhaol oherwydd:

- mae safonau cyrhaeddiad yn anfoddhaol, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd;
- am y tair blynedd diwethaf, nid yw Blaenau Gwent wedi cyrraedd unrhyw feincnodau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyrhaeddiad yn ôl yr hawl i brydau ysgol am ddim;
- mae cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol a nifer y diwrnodau a gollir oherwydd gwaharddiadau yn cynyddu;
- mae mentrau ar gyfer gwella ysgolion yn rhy ddarniog ac nid ydynt wedi'u halinio'n strategol na'u cydlynu'n effeithiol ar lefel weithredol;
- nid yw'r arweinyddiaeth weithredol wrth gyflwyno addysg wedi ysgogi gwelliannau mewn meysydd sy'n tanberfformio;
- nid yw prosesau cynllunio busnes ac asesu risg wedi bod yn ddigon cadarn i nodi a mynd i'r afael ag arafwch y cynnydd mewn gwasanaethau addysg ac mewn ysgolion; ac
- nid yw trefniadau ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac maent yn destun pryder difrifol.

Fodd bynnag:

- mae cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion cynradd wedi gwella ac maent uwchlaw'r cyfartaledd o'u cymharu â chyfarddau ysgolion tebyg yn ôl y meincnodau prydau ysgol am ddim; ac
- o ganlyniad i waith gwasanaeth gwella ysgolion y consortiwm rhanbarthol, mae gan yr awdurdod wybodaeth gywirach ynghylch perfformiad ei ysgolion ac mae'n dechrau mynd i'r afael â thanberfformio'n fwy systematig.

**Gallu i wella: Anfoddhaol**

Mae gan yr awdurdod lleol ragolygon gwella anfoddhaol oherwydd:

- mae arweinyddiaeth gwasanaethau'r awdurdod lleol ar gyfer plant a phobl ifanc yn parhau'n ansefydlog;
- mae cyflymder y gweithredu i ysgogi gwelliant wedi bod yn rhy araf yn y gorffennol i sicrhau arolygwyr y bydd gwelliant yn digwydd heb gymorth a her

allanol parhaus;

- mae diffyg gallu a chymhwysedd mewn rolau allweddol ar bob lefel yn y sefydliad yn rhwystro cynnydd;
- nid yw prosesau hunanarfarnu wedi'u datblygu'n ddigonol ac mae cynnydd yn ôl argymhellion a wnaed mewn arolygiadau blaenorol wedi bod yn gyfyngedig;
- nid yw swyddogion ac arweinwyr ysgolion wedi cael eu dwyn i gyfrif yn effeithiol; ac
- nid yw trefniadau cynllunio busnes wedi cynorthwyo arweinwyr a rheolwyr i gadarnhau disgwyliadau a rheoli perfformiad.

Fodd bynnag:

- yn y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, mae fframwaith rheoli perfformiad defnyddiol lle y mae trefniadau i sicrhau atebolrwydd gan bartneriaid yn datblygu; ac
- mae'r awdurdod wedi sefydlu partneriaethau defnyddiol gyda nifer o awdurdodau lleol cyfagos i gryfhau ei allu a'i arbenigedd.

## Argymhellion

A1 Codi safonau ym mhob cyfnod allweddol, yn enwedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 4

A2 Sicrhau mwy o drylwyredd a chysondeb mewn hunanarfarnu yn weithredol ac yn strategol

A3 Ffurfioli a chryfhau systemau cynllunio busnes a rheoli perfformiad er mwyn canolbwyntio'n fwy ar ddeilliannau a dwyn swyddogion i gyfrif

A4 Creu strwythur arwain sydd â'r mandad i alinio ymdrechion pob asiantaeth berthnasol er mwyn cydlynu a chyfeirio mentrau ar gyfer gwella ysgolion

A5 Defnyddio'r ystod lawn o bwerau sydd ar gael i'r awdurdod i wella ysgolion sy'n tanberfformio yn gyflymach

A6 Gwella'r ddarpariaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai o grwpiau agored i niwed trwy gynllunio'n well, meithrin gallu mewn ysgolion a sicrhau ansawdd gwaith swyddogion yn gadarnach

A7 Sicrhau bod gweithdrefnau diogelu yn gadarn a bod polisi clir yn sylfaen iddynt

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr awdurdod lleol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion hyn o fewn 50 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad.

Mae Estyn o'r farn y dylai'r awdurdod aros yn y categori gweithgarwch dilynol o fod angen mesurau arbennig a byddant yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am y penderfyniad hwn.

Bydd unrhyw weithgarwch dilynol yn cael ei gynllunio gan ystyried gweithgarwch arolygu a rheoleiddio arall mewn awdurdod.  Bydd pob arolygiad dilynol yn cael ei fwydo i Galendr Rheoleiddio Awdurdodau Lleol i osgoi dyblygu ac i fanteisio ar unrhyw gyfleoedd i weithio'n agosach â Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Bydd cynnydd yr awdurdod hefyd yn cael ei fonitro gan Arolygydd Cyswllt Estyn ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Safonau: Anfoddhaol**

Cyfran y dysgwyr ym Mlaenau Gwent sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw'r uchaf yng Nghymru. Fodd bynnag, hyd yn oed pan fydd y lefelau uchel hyn o ddifreintedd yn cael eu hystyried, mae perfformiad ymhell islaw'r cyfartaledd.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2012, roedd y canran a gyflawnodd y dangosydd pwnc craidd wedi gwella. Fodd bynnag, ym mhob cyfnod allweddol heblaw'r Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad ymhlith y gwaethaf yng Nghymru.

O gymharu perfformiad ysgolion Blaenau Gwent ag ysgolion tebyg yng Nghymru ar sail y canran sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, mae perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2 uwchlaw'r cyfartaledd. Fodd bynnag, ar gyfer y dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 3, mae dros hanner yr ysgolion yn y 25% isaf ac nid oes un ysgol yn y 25% uchaf. Yng nghyfnod allweddol 4, dim ond un ysgol sydd uwchlaw'r cyfartaledd ym mhob un o'r pum prif ddangosydd. Mae gormod o ysgolion yn y 25% isaf ac, mewn dau ddangosydd, nid oes un ysgol yn y chwarter uchaf. Ychydig iawn o gynnydd a wnaed gan yr awdurdod dros y tair blynedd diwethaf.

Yn 2012, nid oedd newid yng nghanran disgyblion Blaenau Gwent a adawodd addysg amser llawn heb unrhyw gymwysterau cydnabyddedig, er bod y ffigur ar gyfer Cymru wedi gwella. O ganlyniad, nid yw canran Blaenau Gwent cystal â chyfartaledd Cymru bellach, er ei fod ar lefel y cyfartaledd yn 2011.

Mae Llywodraeth Cymru yn pennu meincnodau ar gyfer perfformiad awdurdod yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 ar sail yr hawl i brydau ysgol am ddim. Yn 2009, dim ond un o'i dri meincnod posibl a gyflawnwyd gan Flaenau Gwent, ac yn y tair blynedd ers hynny, nid yw wedi cyflawni yr un o'r meincnodau hyn. Yng nghyfnod allweddol 4, canrannau'r disgyblion a wnaeth ennill cymwysterau lefel 2 mewn mathemateg a gwyddoniaeth yw'r gwaethaf yng Nghymru, ac mae perfformiad mewn Saesneg yn parhau ymhlith y gwaethaf yng Nghymru.

Mae'r cynnydd rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd uwchlaw'r cyfartaledd yng nghyfnod allweddol 3 yn 2012, er bod hyn o waelodlin isel. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r cynnydd o gyfnodau allweddol 2 a 3 islaw'r cyfartaledd at ei gilydd, hyd yn oed ar ôl caniatáu am y gwaelodlin isel hwn.

Roedd y bwlch mewn perfformiad rhwng merched a bechgyn yn y dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn fwy na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru yn 2012. Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r bwlch mewn perfformiad wedi bod yn gyson fwy na'r bwlch ar draws Cymru dros y blynyddoedd diwethaf. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r bwlch yn fwy nag ydyw ar draws Cymru ym mhob dangosydd.

Mae safonau disgyblion ag AAA islaw cyfartaledd Cymru yn gyffredinol. Yn y Cyfnod

Sylfaen, cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, mae disgyblion ethnig lleiafrifol yn perfformio'n well at ei gilydd na'u grwpiau carfan. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion sy'n sipsiwn a theithwyr a phlant sy'n derbyn gofal yn perfformio cystal â'r grŵp carfan. Nid oes gan yr awdurdod ddadansoddiad sydd ar gael yn gyson ar gyfer pob grŵp.

Yn 2011, roedd y bwlch mewn perfformiad rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill yn llai na'r bwlch ar draws Cymru ar gyfer y rhan fwyaf o ddangosyddion. Fodd bynnag, mae hyn yn adlewyrchu cyrhaeddiad cymharol isel y disgyblion hynny nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae canran y disgyblion sy'n gadael ysgol gynradd gyda lefelau llythrennedd islaw lefel swyddogaethol yn uwch na'r cyfartaledd ar draws Cymru.

Er bod perfformiad mewn Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 2 yn well na'r cyfartaledd ar draws Cymru, mae perfformiad mewn Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 3 ymhlith y gwaethaf yng Nghymru. Yn 2012, roedd canran y disgyblion a enillodd gymhwyster llawn mewn Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 4 ymhlith y gorau yng Nghymru. Fodd bynnag, nifer bach iawn o ddisgyblion a gyflwynwyd ac mae'n cynrychioli llai nag un o bob deg o ddisgyblion cymwys ym Mlaenau Gwent.

Mae dysgwyr yn ennill ystod dda o gymwysterau mewn lleoliadau anffurfiol a ffurfiol, gan gynnwys cymwysterau sy'n canolbwyntio ar waith.

**Lles: Digonol**

Mae presenoldeb yn ysgolion Blaenau Gwent yn gwella'n araf. O gymharu ag ysgolion tebyg ar sail y meincnod prydau ysgol am ddim, mae presenoldeb uwchlaw'r cyfartaledd mewn ysgolion cynradd ond islaw'r cyfartaledd mewn ysgolion uwchradd. Mae data'r awdurdod lleol ei hun, sydd heb ei wirio, ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd yn 2012-2013, sy'n cymharu presenoldeb yn ystod y tymor cyntaf gyda phresenoldeb yn yr un cyfnod y flwyddyn gynt, yn awgrymu bod presenoldeb yn parhau i wella.

Cynyddodd nifer y gwaharddiadau parhaol mewn ysgolion uwchradd yn 2011, o ddim un yn ystod y tair blynedd blaenorol, i bump yn 2011. Cynyddodd gwaharddiadau cyfnod penodol o chwe diwrnod neu fwy yn 2011 hefyd. Gostyngodd cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol byrrach ychydig yn 2011 gan wyrdroi gwelliant y flwyddyn gynt. Serch hynny, mae nifer cyfartalog y diwrnodau sy'n cael eu colli ar gyfer pob gwaharddiad yn cynyddu.

Mae cyfran y dysgwyr sy'n aros ymlaen mewn addysg amser llawn yn 16 oed wedi gwella. Yn yr un modd, mae'r niferoedd nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth amser llawn (NEET) wedi gwella hefyd yn gynt na chyfartaledd Cymru. Mae data'r awdurdod lleol, sydd heb ei wirio, yn awgrymu bod y gostyngiad yn y niferoedd NEET yn parhau'n gynt na chyfartaledd Cymru.

Mae'r data diweddaraf (2011) yn dangos bod nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn narpariaeth y gwasanaethau cymorth ieuenctid, gan gynnwys canolfannau galw heibio anffurfiol a gweithgareddau gwaith stryd, yn ddigonol.

Mae pobl ifanc yn cymryd rhan yn dda mewn gweithgareddau chwaraeon ar ôl ysgol, ar gyfradd uwch na chyfartaledd Cymru, ond nid oes cynifer ohonynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon yn y gymuned.

Mae pobl ifanc yn mynd ati i gyfrannu'n dda at ddatblygu cynllunio gwasanaethau a pholisi, trwy gymryd rhan mewn ymgynghoriadau'r gwasanaethau addysg, y fforwm ieuenctid ac Uwch-Gyngor y Plant.  Mae pobl ifanc hefyd yn cymryd rhan mewn hyfforddiant sy'n eu galluogi i asesu ansawdd y ddarpariaeth gan ddefnyddio dyfarniad ansawdd lleol ar gyfer gwasanaethau gwrthfwlio a gwasanaethau i bobl ifanc.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Cymorth ar gyfer Gwella Ysgolion: Digonol**

Dros y misoedd diwethaf, mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd da wrth wella'i brosesau i gefnogi, herio ac ymyrryd mewn ysgolion, yn bennaf trwy waith gwasanaeth gwella ysgolion y consortiwm rhanbarthol a'r cyfarwyddwyr adfer.  Mae arweinwyr system rhanbarthol yn herio ysgolion yn gadarnach ac yn defnyddio ystod dda o ddata am berfformiad i ganolbwyntio trafodaethau'n briodol ar safonau cyrhaeddiad.  Mae prosesau gosod targedau ysgolion yn fwy sicr ac, yn gyffredinol, gosodant ddisgwyliadau uwch i ysgolion.

Er Medi 2012, mae arweinwyr system wedi dosbarthu ysgolion yn ôl fframwaith y consortiwm rhanbarthol gan ddefnyddio ystod dda o ddata am berfformiad ynghyd ag agweddau eraill ar ddarpariaeth.  Ar hyn o bryd, nid yw'r fframwaith hwn yn cynnwys agweddau ar addysgu a dysgu, er bod hyn yn cael ei ddiwygio ar hyn o bryd.  Mae gan benaethiaid ddealltwriaeth dda o wahanol agweddau'r fframwaith a'r categori y mae eu hysgol ynddo, er bod lleiafrif o benaethiaid yn llai clir ynghylch eu hawl i gymorth o ganlyniad.  Mae dosbarthu ysgolion wedi galluogi'r consortiwm rhanbarthol i dargedu ymyrraeth a chymorth yn yr ysgolion hynny sydd angen eu gwella fwyaf.

Mae ansawdd ac amlder nodiadau ysgrifenedig o ymweliadau wedi gwella trwy waith y consortiwm rhanbarthol ac mae rhai nodiadau'n cynnwys arfarniad defnyddiol o agweddau ar arweinyddiaeth a rheolaeth.  Yn ogystal, er nad yw ychydig ohonynt yn nodi meysydd i'w gwella'n llawn, mae'r consortiwm wedi cyflwyno prosesau'n ddiweddar i sicrhau ansawdd gwaith ei swyddogion a mynd i'r afael â'r materion hyn.

O ganlyniad i'r gwelliannau hyn gan wasanaeth gwella ysgolion y consortiwm rhanbarthol, mae'r awdurdod bellach yn cael gwybodaeth gywirach am berfformiad ei ysgolion ac mae'n dechrau mynd i'r afael â thanberfformiad yn fwy systematig. Fodd bynnag, mae'r trefniadau hyn i nodi ac ymyrryd mewn ysgolion sy'n tanberfformio yn gymharol ddiweddar ac nid ydynt wedi cael amser eto i gael effaith ar safonau cyrhaeddiad mewn ysgolion.  Ers dechrau'r cylch arolygu presennol yn 2010, bu angen gweithgarwch dilynol ar gyfran uchel o ysgolion ar ôl eu harolygiad ac ni farnwyd bod gan yr un ysgol arfer ragorol.

Mae gan yr awdurdod lleol raglen o adolygiadau yn ei ysgolion gan ddefnyddio ymgynghorwyr allanol.  Yn ddiweddar, mae hefyd wedi sefydlu Grŵp Monitro Safonau Ysgolion sy'n cynnwys aelodau etholedig ac uwch swyddogion, sy'n herio perfformiad ysgolion. Fodd bynnag, mae amseru'r adolygiadau hyn yn dibynnu'n rhy helaeth ar gylch arolygu Estyn.  Gwneir yr adolygiadau hyn ychydig cyn cynnal

arolygiadau, pan fyddai mwy o fudd o ganolbwyntio ar yr ysgolion sydd angen eu gwella fwyaf.

Mae gan yr awdurdod amrywiaeth o bartneriaid eraill yn gweithio gydag ysgolion, gan gynnwys Rhaglen Addysg Blaenau'r Cymoedd ynghyd ag ymgynghorwyr annibynnol. Yn ogystal, mae'n defnyddio penaethiaid cynradd fel ymgynghorwyr. Mae'r penaethiaid hyn wedi cyflwyno amrywiaeth o fentrau gan gynnwys nifer sydd â'r nod o godi safonau llythrennedd. Fodd bynnag, nid yw gwaith y partneriaid hyn yn cael ei gydlynu'n systematig ac ni chaiff effaith mentrau ei harfarnu'n ddigon da i ysgol wybod pa rai a fyddai'n eu helpu i wella fwyaf. Mae nifer o'r mentrau yn dyblygu darpariaeth a gynigir eisoes gan y consortiwm rhanbarthol.

Mae ysgolion yn gweithredu rhaglenni ymyrryd ar gyfer y disgyblion hynny y mae angen gwella'u medrau sylfaenol, ond nid yw'r awdurdod yn olrhain cynnydd disgyblion yn ddigon da i wybod a ydynt yn parhau i wella. Mae ychydig ysgolion wedi cyflwyno menter llythrennedd, trwy'r consortiwm rhanbarthol, ac mae hynny wedi dechrau gwella safonau. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw'r awdurdod ei hun wedi rhoi digon o flaenoriaeth i wella rhifedd yn ei gynllunio.

Yn ddiweddar, mae'r consortiwm rhanbarthol wedi rhoi cyfleoedd i arweinwyr pwnc gyfarfod mewn grwpiau rhwydwaith, ond nid oes digon o raglenni hyfforddi ar gyfer arweinwyr uwch a chanol mewn ysgolion.

**Cymorth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol: Anfoddhaol**

Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd araf wrth gynllunio gwasanaethau'n strategol i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae awdurdod cyfagos wedi helpu'r gwasanaeth i nodi meysydd y mae angen eu gwella'n fawr; fodd bynnag, nid yw'r cyfeiriad diweddar hwn wedi cael effaith eto. Nid yw cynlluniau busnes yn mynd i'r afael â llawer o'r meysydd allweddol i'w datblygu ac nid oes cynllunio ariannol cadarn yn eu hategu.

Mae'r awdurdod yn araf o hyd yn datblygu prosesau ar gyfer casglu a dadansoddi data ar anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad, nid yw'n gallu mesur cynnydd disgyblion, nac arfarnu effaith ymyriadau ar ddeilliannau disgyblion er mwyn cynllunio gwasanaethau'n ddigon da.

Mae'r awdurdod yn dechrau datblygu ychydig o'r gofynion sylfaenol y mae eu hangen i gyflwyno gwasanaethau i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Er enghraifft, mae wedi datblygu meini prawf priodol i gefnogi disgyblion ac wedi cyflwyno systemau gwell ar gyfer cyfeirio disgyblion i'r Panel Anghenion Dysgu Ychwanegol. O ganlyniad, mae'r prosesau ar gyfer dyrannu cymorth yn gliriach erbyn hyn ac yn cael eu cymhwyso'n fwy cyson gan y panel cymorth dysgu ychwanegol. Mae gwelliant yn yr her gan y panel hefyd wedi arwain at ostyngiad priodol diweddar yn nifer y datganiadau newydd.

Yn ddiweddar, mae'r awdurdod wedi cyflwyno model categoreiddio cynhwysiant er mwyn bodloni anghenion disgyblion yn well. Fodd bynnag, ni roddwyd hwn ar waith yn llawn ac mae gormod o benaethiaid yn aneglur ynghylch lefel y cymorth y bydd ysgolion yn ei chael neu sut bydd yr awdurdod yn eu dwyn i gyfrif o ran y deilliannau

ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r awdurdod wedi cynhyrchu ystod fechan o daflenni defnyddiol i rieni. Mae swyddogion Partneriaeth Rhieni yn cynnig cymorth effeithiol i rieni, gan eu helpu i ddeall y broses asesu statudol a datrys unrhyw bryderon sydd ganddynt. O ganlyniad, ni fu unrhyw apeliadau i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf.

**Hyrwyddo Cynhwysiant Cymdeithasol a Lles: Anfoddhaol**

At ei gilydd, araf fu cynnydd yr awdurdod wrth ddefnyddio deilliannau yn sail ar gyfer arfarnu a chynllunio er mwyn targedu ymyriadau cynhwysiant cymdeithasol a lles yn effeithiol.

Mae newidiadau yn y gwasanaeth lles addysg, polisïau cadarnach, gwaith ehangach gyda theuluoedd, cymorth gan nyrsys ysgol a rhannu a gweithredu arfer dda rhwng ysgolion oll yn cyfrannu at welliannau o ran presenoldeb mewn ysgolion. Fodd bynnag, nid yw prosesau monitro ac arfarnu'n ddigon cadarn o hyd i sicrhau bod adnoddau bob amser yn cael eu targedu'n effeithiol neu i sicrhau ansawdd gwaith swyddogion perthnasol.

Nid yw'r awdurdod lleol yn meithrin digon o allu mewn ysgolion i reoli ymddygiad heriol. Mae'r tîm cymorth ymddygiad wedi cael effaith rannol ar wella ymddygiad ychydig ddisgyblion ond nid yw'n ddigon llwyddiannus wrth atal disgyblion rhag cael eu gwahardd neu rhag bod angen darpariaeth arnynt heblaw yn yr ysgol yn y tymor hwy. Nid yw lefel y cymorth a gaiff ysgolion i gefnogi lles disgyblion ar sail eu categori cynhwysiant yn glir. Mae'n aneglur hefyd a oes gan yr awdurdod lleol y gallu i gyflwyno'r cymorth. Nid yw swyddogion yn herio ysgolion yn ddigon cadarn mewn cyfarfodydd cyswllt cynhwysiant.

Nid yw staff sy'n hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles yn gweithio'n ddigon agos gyda swyddogion gwella ysgolion i rannu dealltwriaeth gyffredin o ysgolion a sicrhau bod amser swyddogion yn cael ei dargedu'n effeithiol.

At ei gilydd, mae gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol yn cynnig gwasanaethau da i bobl ifanc. Mae'r gwasanaeth yn gwneud cynnydd araf wrth wella'i ddefnydd o ddata o'r system gwybodaeth reoli i fonitro ac arfarnu perfformiad yn fwy effeithiol.

Gall pobl ifanc fanteisio ar ystod dda o gymorth ac arweiniad priodol drwy wasanaethau cymorth ieuenctid eraill. Fodd bynnag, nid oes gan yr awdurdod lleol wybodaeth gyfredol am ddeilliannau'r gwasanaethau.

Nid yw trefniadau'r awdurdod ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac maent yn destun pryder difrifol. Nid yw uwch reolwyr yn sicrhau ansawdd gweithredu polisïau a gweithdrefnau'n ddigon da. Nid yw rheolwyr yn cyflwyno adroddiadau cyson ar ddiogelu i aelodau etholedig a rheolwyr corfforaethol.

**Mynediad a lleoedd ysgol: Digonol**

Mae'r awdurdod yn ymateb yn dda i her sy'n gysylltiedig â gostwng nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion uwchradd. Yn ddiweddar, mae wedi sefydlu ysgol gymunedol

3-16 oed newydd ac wedi trosglwyddo'r ddarpariaeth ôl-16 i gyfleuster y Parth Dysgu newydd. Mae lleoedd gwag wedi cynyddu yn yr awdurdod yn dilyn cau dosbarthiadau chweched dosbarth yn yr ysgolion uwchradd. Fodd bynnag, mae gan yr awdurdod cynlluniau datblygedig i ostwng nifer y lleoedd gwag islaw 15% erbyn 2015.

Blaenau Gwent sydd â'r canran uchaf o leoedd gwag mewn ysgolion cynradd yng Nghymru. Mae gostwng nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion cynradd yn cael blaenoriaeth briodol yng nghynlluniau'r awdurdod. Mae'r awdurdod wedi cau tair ysgol gynradd er mwyn sefydlu ysgol gymunedol newydd, ond mae ei ymdrechion wedi canolbwyntio'n bennaf ar ysgolion uwchradd yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae Blaenau Gwent yn ymateb yn briodol i bob cais gan rieni am addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant ac yn darparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol lle bo'r angen. Fodd bynnag, gall hyn olygu amseroedd teithio hir i rai disgyblion, hyd yn oed ar lefel ysgol gynradd.

Mae'r awdurdod wedi cynnal asesiad priodol o 'ddigonoldeb gofal plant' ac mae'n monitro lleoedd gofal plant yn dda i sicrhau bod nifer digonol o leoedd i ateb y galw yng ngwahanol ardaloedd Blaenau Gwent. Yn ogystal, mae gweithdrefnau sicrhau ansawdd da ar waith gan yr awdurdod ar gyfer lleoliadau nas cynhelir. Mae darparwyr yn dilyn arweiniad defnyddiol, sy'n helpu i sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth.

Mae archwiliad priodol o'r ddarpariaeth chwarae yn yr awdurdod ac mae mewn sefyllfa dda i lunio asesiad 'digonoldeb chwarae' o fewn yr amserlenni statudol.

Mae gan Flaenau Gwent ystod eang o ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid. Mae'r gwasanaeth cymorth ieuenctid yn cynnal llawer o brosiectau sy'n cael eu goruchwylio gan y rheolwr gwasanaethau ieuenctid ac mae fforwm y gwasanaeth cymorth ieuenctid yn sicrhau eu hansawdd, ond prin yw'r dystiolaeth o arfarnu.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Anfoddhaol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Mae arweinyddiaeth y Gyfarwyddiaeth Addysg a Hamdden ym Mlaenau Gwent wedi bod yn ansefydlog ers nifer o flynyddoedd. Nid yw ansawdd yr arweinyddiaeth wedi bod yn gyson nac yn ddigon effeithiol ac nid yw swyddogion wedi cymryd camau amserol a blaenoriaethol i sicrhau gwelliant. Yn ogystal, nid oes arfer na diwylliant o her wedi'i ymgorffori. Nid yw arweinwyr ysgolion, swyddogion a rheolwyr wedi cael eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r awdurdod wedi gofyn am amrywiaeth o gymorth allanol ac wedi cael cymorth o ganlyniad i ymyrraeth gan y gweinidog. Mae'r cyngor a roddwyd i swyddogion gan bobl allanol wedi bod yn anghyson ar adegau ac mae hyn wedi cyfyngu ar raddfa'r cynnydd a'i gyflymder, yn bennaf yn ystod y flwyddyn gyntaf ar ôl yr arolygiad diwethaf. Er gwaethaf cynnydd mwy diweddar, dan

arweiniad y comisiynwyr a'r ddau gyfarwyddwr adfer yn bennaf, nid yw arweinwyr a rheolwyr wedi sefydlu llwybr cynaliadwy o newid a gwelliant o hyd. Er bod y Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi rhoi blaenoriaeth lwyddiannus i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, nid yw wedi defnyddio'i ddylanwad yn llawn i flaenoriaethu a gyrru gwelliant mewn perfformiad ar draws gwasanaethau addysg ac ysgolion.

Mae aelodau etholedig o bob plaid wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cydnabod effaith eu hymddygiad negyddol ar gynnydd ac maent wedi newid eu ffordd o weithio. Mae aelodau wedi derbyn cyngor defnyddiol, wedi ymateb yn gadarnhaol i hyfforddiant ac maent bellach yn ymwybodol iawn o'r rôl hollbwysig sydd ganddynt yn codi safonau ar gyfer dysgwyr. Erbyn hyn, mae aelodau mewn sefyllfa well i gyfarwyddo a herio swyddogion. Maent hefyd wedi gwneud penderfyniadau anodd i gyflwyno model trydyddol ar gyfer addysg ôl-16 oed.

Mae trefniadau craffu bellach yn gadarnach, ac mae aelodau etholedig yn cwestiynu'n fwy priodol, yn gofyn am fwy o fanylion ac yn herio swyddogion. Fodd bynnag, yn rhy aml, nid yw adroddiadau swyddogion i aelodau etholedig a phwyllgorau'n cynnwys y wybodaeth angenrheidiol. Nid oes adroddiadau cyson ynghylch agweddau pwysig, fel adnoddau, targedau sy'n herio'n briodol a manylion fel data ar lefel ysgolion. Mae hyn yn tanseilio cynnydd. Yn ogystal, mae dogfennau a gyflwynwyd fel tystiolaeth ar gyfer yr arolygiad yn dangos diffyg ffocws ar flaenoriaethau a sylw annigonol i fanylion.

Yn yr un modd, mae dull anghyson o gynllunio busnes, adrodd ar gynnydd a gwella. Yn ogystal, mae diffyg dealltwriaeth yn yr awdurdod o effaith y camau a gyflawnir ar ddeilliannau i blant a phobl ifanc. Mae hyn yn golygu bod arweinwyr corfforaethol wedi methu pennu blaenoriaethau priodol er mwyn dosbarthu adnoddau'n ddigon da. Mae arweinwyr wedi methu clustnodi mentrau ar gyfer gwasanaethau gwella ysgolion, ac anghenion dysgu ychwanegol yn benodol, ar lefelau strategol a gweithredol. Mae hyn wedi arwain at fethu cyflawni ac ymdrech ddarniog.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Nid yw trefniadau hunanarfarnu a rheoli perfformiad wedi bod yn ddigon da i effeithio ar wella deilliannau i blant a phobl ifanc.

Mae'r awdurdod wedi cyflwyno trefniadau hunanarfarnu mwy systematig sy'n sylfaen i'r fframwaith adrodd corfforaethol. Mae'r awdurdod yn ymgynghori'n dda ag ystod o randdeiliaid. Yn benodol, mae barn plant a phobl ifanc wedi cael dylanwad sylweddol ar agweddau ar waith yr awdurdod. Fodd bynnag, mae cysondeb, ansawdd a thrylwyredd hunanarfarnu ar draws ystod y gwasanaethau addysg yn wan.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu a ddarparwyd ar gyfer yr arolygiad yn ddisgrifiadol yn bennaf. Mae'n cyfeirio at ystod o gamau a mentrau, llawer ohonynt yn rhai diweddar iawn, ac mae'n cynnwys haeriadau mynych fod arfer wedi gwella heb roi tystiolaeth berthnasol i ategu hynny. Mae'r adroddiad yn anghytbwys ac nid yw'n ddigon hunanfeirniadol. Mae gormod o bwyslais ar gynnig dehongliad cadarnhaol o berfformiad a dim digon o arfarnu neu nodi diffygion. Yn rhy aml, mae cyfeiriadau at

weithgareddau sy'n digwydd heb unrhyw arfarniad systematig o effeithiolrwydd ac effaith y gwaith hwn. Er bod yr awdurdod yn dechrau defnyddio data'n fwy effeithiol i arfarnu effeithiolrwydd y ddarpariaeth, yn gyffredinol, nid yw swyddogion yn arfarnu mentrau penodol yn ddigon da i nodi sut y mae'r rhain yn fwyaf effeithiol.

Mae gofynion clir i ddarparu adroddiadau thematig i aelodau etholedig, ac adroddiadau eithriadau misol ac adroddiadau chwarterol ar gynnydd, o fewn y Cynllun Gwella Addysg a Hamdden. Fodd bynnag, mae adroddiadau'n rhy ddisgrifiadol, yn ymdrin â gormod o agweddau yn hytrach na chanolbwyntio ar flaenoriaethau allweddol ac nid ydynt yn cynnwys dadansoddiad cadarn o ddeilliannau perfformiad a chynnydd yn ôl targedau. I raddau helaeth, mae adroddiadau'n cyfeirio at gamau gweithredol sydd wedi digwydd, gan awgrymu'n aml fod cynnydd wedi bod yn dda, heb arfarnu effeithiolrwydd yr ymyriadau. Yn aml, nid yw gosod targedau yn ystyried perfformiad blaenorol yn ddigonol. O ganlyniad, nid oes gan yr awdurdod werthfawrogiad sicr o'r graddau y mae'n cyflawni'r amcanion a'r targedau sydd wedi'u pennu mewn cynlluniau gwella. Mae hyn yn cyfyngu ar ragolygon gwella'r awdurdod.

Nid yw'r awdurdod wedi defnyddio'i bwerau statudol i wella ysgolion sy'n tanberfformio'n gyson yn ddigon cyflym.

Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd cyfyngedig wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf. Mae swyddogion bellach yn herio ysgolion yn gadarnach ac wedi gwella'u defnydd o ddata i herio tanberfformio. Mae cyfraddau presenoldeb a chyfraddau'r rhai sy'n aros mewn addysg ôl-16 oed wedi gwella. Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol wedi gwella'n ddigonol ac mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi bod yn araf i fynd i'r afael â diffygion. Mae'r swyddogaeth graffu'n dwyn y weithrediaeth i gyfrif yn fwy effeithiol. Fodd bynnag, ni fu digon o gynnydd o ran argymhellion pwysig eraill. Mae'r deilliannau i ddysgwyr yn parhau'n anfoddhaol at ei gilydd ac ni chaiff data ei ddefnyddio'n ddigon da i arfarnu effeithiolrwydd mentrau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae Cynllun Plant a Phobl Ifanc 2011-2014 a chynlluniau strategol eraill fel y Strategaeth Gymunedol a'r Cynllun Corfforaethol yn mynegi blaenoriaethau addysg allweddol yn glir. Fodd bynnag, nid yw'r blaenoriaethau bob amser wedi'u diffinio'n dda, ac nid oes mesurau perfformiad cyffredin yn eu tanategu ychwaith. Mae hyn yn ei gwneud hi'n fwy anodd cynnal ffocws clir ar flaenoriaethau addysg, ac ymgymryd â monitro a rheoli perfformiad yn effeithiol ar draws cynlluniau. Fodd bynnag, mae'r Cynllun Gwella Unigol drafft yn diwygio'r blaenoriaethau addysg hyn ac yn eu dwyn ynghyd yn fwy effeithiol.

Mae'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn defnyddio fframwaith rheoli perfformiad, ar sail defnyddio atebolrwydd wedi'i seilio ar adnoddau. Mae trefniadau i sicrhau atebolrwydd gan bartneriaid a phartneriaethau eraill yn datblygu. Fodd bynnag, nid yw'r strwythur adrodd yn cynnwys pwysigrwydd targedau a fethwyd, tanberfformio na heriau newydd yn ddigonol.

Nid yw mesurau pwysig fel nodi effaith perfformiad gwael gan ddisgyblion mewn asesiadau cyfnod allweddol wedi'u cynnwys fel eitemau adrodd cyffredin ar lefel

bwrdd y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Mae hyn yn golygu nad yw'r Bartneriaeth yn monitro effaith tanberfformio ar lefel ysgol, na chyfraniad meysydd gwasanaeth eraill at gyrhaeddiad a chyflawniad addysgol, yn ddigon rhagweithiol.

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi diwygio'i aelodaeth a bellach mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r coleg addysg bellach lleol. Mae hyn wedi ei helpu i gryfhau ei ffocws ar faterion addysg ac yn benodol ar y flaenoriaeth ar gyfer gostwng nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu partneriaethau defnyddiol gyda nifer o awdurdodau lleol cyfagos er mwyn ychwanegu gallu ac arbenigedd i helpu gwella'r ddarpariaeth addysg. Yn ogystal, mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n dda gyda gwasanaeth gwella ysgolion y consortiwm rhanbarthol er mwyn gwella ysgolion ym Mlaenau Gwent.

**Rheoli adnoddau: Anfoddhaol**

Er bod yr awdurdod yn yr ail safle o ran cyfanswm gwariant ar addysg fesul disgybl yng Nghymru, mae safonau'n anfoddhaol. Yn ogystal, y gyllideb a ddirprwyir ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yw'r ail uchaf yng Nghymru. Ar hyn o bryd, ni all yr awdurdod ddangos bod y gyllideb hon yn cael ei defnyddio'n effeithiol i fodloni anghenion dysgwyr.

Mae prosiectau gweddnewid ysgolion hefyd yn flaenoriaethau i'r awdurdod lleol ac erbyn hyn, maent yn effeithio'n gadarnhaol ar nifer y lleoedd gwag dros ben mewn ysgolion. Cafwyd cyllid ychwanegol gan y gronfa 'buddsoddi i arbed' ac mae'r gyllideb ysgolion wedi'i diogelu'n rhannol rhag toriadau i gyllidebau.

Mae'r trefniadau ar gyfer monitro cyllideb gwasanaethau yn effeithiol. Mae gorwario yn y gyllideb yn cael ei fonitro'n drylwyr a'i reoli o adnoddau corfforaethol neu gyllidebau adrannol. Mae gan leiafrif o ysgolion gronfeydd arian wrth gefn o 5% neu fwy. Mae gan ychydig ysgolion gronfeydd o 10% neu fwy. Mae ysgolion sydd â chronfeydd a diffygion gormodol yn cael eu herio ac mae balansau a ragfynegir yn fwy ffafriol.

Mae'r adran yn defnyddio cyllid allanol, partneriaethau a threfniadau cydweithredol i gyflawni agweddau ar ddarpariaeth yn effeithlon ac yn effeithiol. Yn ogystal, mae comisiynu a dadgomisiynu gwasanaethau'n cael eu gwneud fwyfwy ar sail deilliannau.

Mae'r awdurdod wedi arfarnu effeithlonrwydd ychydig o'i wasanaethau ond ni all arddangos yn gyson ei fod wedi defnyddio'i adnoddau'n effeithiol i gyflawni deilliannau da a gwella safonau. Mae safonau'n parhau'n anfoddhaol at ei gilydd ac felly mae'r gwerth am arian yn anfoddhaol.

## Atodiad 1

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Betsan O'Connor | Arolygydd Cofnodol |
| Farukh Khan | Dirprwy Arolygydd Cofnodol |
| John Thomas | Arolygydd Tîm |
| Mererid Stone | Arolygydd Tîm |
| Caroline Rees | Arolygydd Tîm |
| Mark Campion | Arolygydd Tîm |
| Gerard Kerslake | Arolygydd Tîm |
| Samantha Spruce | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Meinir Ebbsworth | Arolygydd Cymheiriaid |
| Robert James | Arolygydd Cymheiriaid |
| Lynn Phillips | Enwebai |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

# Rhestr termau

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 3, yn bedair ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 6 neu 7.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Arholiadau allanol yng nghyfnod allweddol 4 neu ôl-16**

**Dangosydd pwnc craidd** – fel uchod.

**Cymhwyster Lefel 1** – cyfwerth â TGAU gradd D i G.

**Y trothwy Lefel 1** – rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill nifer o gymwysterau sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G.

**Cymhwyster Lefel 2** – cyfwerth â TGAU gradd A* i C.

**Y trothwy Lefel 2** - rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill nifer o gymwysterau sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C.

**Y trothwy Lefel 2 gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg** – rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill cymwysterau lefel 2 mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ac mewn mathemateg fel rhan o'u trothwy.

**Cymhwyster Lefel 3** – cyfwerth â Safon Uwch gradd A* i C.

**Y trothwy Lefel 3** – rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill nifer o gymwysterau sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E.

Mae'r **sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach** yn cynnwys yr holl gymwysterau allanol a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol - er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. I gyfrifo hyn, caiff cyfanswm nifer y pwyntiau a enillir gan yr holl ddysgwyr yn y garfan ei rannu gan nifer y dysgwyr.

Mae'r **sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i gapio** yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau yn unig ar gyfer pob disgybl o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.